



CANLLAW GWYBODAETH

CRONFA FUDDSODDI SIR Y FFLINT Ar gyfer Busnesau Meicro ac SME

At ddibenion:

**Prosiectau Lleihau Carbon
Prosiectau Gosod Cyfarpar Digidol ac Uwchraddio
Digidol
Prosiectau COVID Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle**

ADRAN A - FFACTORAU ALLWEDDOL

Rhagarweiniad

Mae Cronfa Fuddsoddi Sir y Fflint (FIF) yn gynllun cefnogi busnes hyblyg sy'n anelu at gynorthwyo twf ac ehangiad busnesau (gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i sectorau twf uchel), drwy ddarparu pecyn cefnogaeth ariannol yn ôl disgrisiwn ar gyfer busnesau sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r cynllun yn cynnig cyllid o hyd at 50% ar wariant cyfalaf a refeniw cymwys ar gyfer prosiectau â dyfarniad sy'n cael ei gynnig o rhwng £5,000 a £50,000.

Bydd taliad grant yn cael ei wneud wedyn, unwaith mae'r gwaith wedi'i gwblhau a'i dystiolaethu.

Mae'n rhaid tystiolaethu canlyniadau o fewn 12 mis o ddyddiad llythyr cynnig y dyfarniad grant.

Nodwch fod y dyfarniad yn ôl disgrisiwn ac yn ddibynnol ar argaeledd cyllid.

Amserlen

Mae Grant FIF ar agor i geisiadau mis Rhagfyr 2021.

Mae'n rhaid cyflwyno Ceisiadau FIF a phob dogfen i dystiolaethu erbyn 31 Ionawr, 2022.

Bydd llythyrau cynnig Grant FIF yn cael eu dosbarthu i geisiadau llwyddiannus ym mis Chwefror 2022.

Mae'n RHAID i brosiectau FIF sydd wedi'u cymeradwyo eu CWBLHAU a'u HAWLIO erbyn 20 Awst, 2022.

Ffactorau Cymhwysedd

Mae'r cynllun wedi'i dargedu at fentrau bach a chanolig (sy'n cyflogi hyd at 250 o bobl) gydag *un ai* trosiant o lai na €50 miliwn *neu* fantolen llai na €43 miliwn. I fod yn gymwys i dderbyn buddsoddiad cefnogi, mae'n rhaid i'r busnes fod yn Sir y Fflint.

I gael eich ystyried, mae'n rhaid i'ch prosiect ddisgyn i mewn i un o'r categorïau canlynol:

- Prosiectau Lleihau Carbon h.y. gosod paneli solar; ailosod prosesau busnes; inswleiddio; goleuadau ynni isel
- Prosiectau Gosod Digidol ac Uwchraddio Digidol h.y. isadeiledd; buddsoddiad mewn systemau

- Prosiectau COVID Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle h.y. awyru, cylchrediad aer, iechyd a diogelwch, mesurau cadw pellter cymdeithasol

Bydd ffactorau ychwanegol i gryfhau eich cais yn cynnwys:

- Creu neu Gynnal Swyddi
- Cynyddu cystadleuaeth
- Ysgogi twf buddsoddiad pellach
- Cynorthwyo twf busnes
- Gwneud enillion effeithlonrwydd
- Cynyddu cynaliadwyedd
- Cyflwyno cynnyrch, gwasanaethau neu farchnadoedd newydd
- Datgarboneiddio a'r argyfwng hinsawdd a fydd yn helpu Cymru i ddiwallu ei darged allyriadau carbon sero net sydd wedi'i rwymo mewn cyfraith erbyn 2050.
- Helpu busnesau i weithio ar y cyd, er mwyn cefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, gwasanaethau danfon a logisteg lleol

Dadleoli

Ni fydd FIF yn cefnogi prosiectau sy'n achosi dadleoli, h.y. darparu mantais anheg dros gystadleuwyr lleol.

Dyfyniadau

Ar gyfer eitemau sy'n costio £3,000 neu lai, bydd dyfyniad sengl fesul cyflenwr yn dderbyniol. Bydd gofyn am 3 dyfyniad ar gyfer eitemau dros £3,000. Ni ddylai dyfyniadau fod yn hŷn na 3 mis. Nodwch fod Cyngor Sir y Fflint yn cadw'r hawl i wneud cais am 3 dyfyniad ar bob gwariant cymwys ar gyfarpar. Ar gyfer costau adeilad, bydd Cyngor Sir y Fflint yn derbyn costau adeilad wedi'u harwyddo gan Syrfëwr Meintiau cymwys, Syrfëwr Siartredig neu Bensaer.

Ceisiadau sy'n Ailadrodd - uchafswm o £50,000 fesul busnes

Bydd ymgeisydd sy'n derbyn cyllid REFENIW FIF (h.y. ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb proffesiynol sy'n gysylltiedig â lleihau carbon, prosiectau COVID sy'n ymwneud â gosod cyfarpar digidol / iechyd a diogelwch yn y gweithle) yn gymwys i wneud cais am GYFALAF FIF i wireddu'r prosiect yn llawn. Ni fydd uchafswm grant fesul busnes yn mynd tu hwnt i £50,000, sy'n destun arian cyfatebol.

Prynant am Arian Parod

Ni fydd cyllid yn cael ei dalu lle bo pryniant am arian parod eisoes wedi'i wneud.

Ôl-weithredu

Ni fydd cyllid yn cael ei dalu ar unrhyw wariant ôl-weithredol. Nid ellir defnyddio grant FIF i ariannu unrhyw waith sydd eisoes yn mynd rhagddo neu a gwblhawyd cyn cymeradwyaeth ffurfiol a derbyniad y cynnig grant.

ADRAN B - PROSES GRANT

Cam 1 - Cais Llawn

Mae'n bwysig sicrhau bod eich ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn a bod y dogfennau ategol wedi'u cynnwys wrth gyflwyno'r ffurflen. Mae hyn yn cynnwys:

Cynllun Busnes Cyfredol

Cyfrifon ar gyfer y ddwy flynedd fwyaf diweddar

Copi o Gyfriflen Banc diweddar

Datganiad o Amcangyfrif o Lif Arian, ac Enillion a Cholledion

Cadarnhad o Ffynhonnell Cyllid, sy'n ariannu'r prosiect

Cadarnhad o Ganiatâd Cynllunio a / neu Reoliadau Adeiladau (os yw'n berthnasol) gan gynnwys 'Newid Defnydd'.

Cadarnhad o ganiatâd rhydd-ddeiliad/landlord i ymgymryd â'r gwaith (os yw'n berthnasol)

Amcangyfrif / dyfyniadau ar gyfer prosiect dim hŷn na 3 mis

Pob Gofyniad Cyfreithiol Statudol ar gyfer y Busnes (os yw'n berthnasol)

Gall methiant i gydymffurfio achosi oedi i'r penderfyniad. Nodwch nad yw'r amserlen cymeradwyaeth yn cychwyn nes derbynnir yr holl ddogfennaeth ofynnol gan yr Awdurdod Lleol.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd y cyllid yn cael ei gynnig pan ddangosir yn glir na fyddai'r prosiect yn parhau heb y gefnogaeth ariannol, ar y raddfa a ragwelwyd, neu o fewn terfyn amser rhesymol.

Gall y Cyngor dynnu cynnig yn ôl pan nad yw prosiect yn cael ei weithredu yn unol â'r cais, neu pan mae oedi annerbyniol.

Fe'ch atgoffir ar y cam hwn i beidio ymgymryd ag unrhyw wariant ar y prosiect nes bod penderfyniad ffurfiol wedi cael ei wneud ar y cynnig, a chadarnhad ysgrifenedig wedi cael ei dderbyn.

Darllenwch yr holl wybodaeth a'r canllawiau a ddarparwyd yn ofalus, gan nodi a deall pob agwedd o'r ffurflen gais a'r canllawiau sy'n ymwneud â dyfarnu'r FIF yn benodol. Dylech fod yn ymwybodol o'r canlynol yn benodol:

- Ni fydd cyllid yn cael ei dalu ar unrhyw wariant ôl-weithredol
- Ni fydd cyllid yn cael ei dalu lle bo pryniant am arian parod eisoes wedi'i wneud

Prosesu eich Cais

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais lawn, efallai bydd y Cyngor yn:-

Gwirio bod y manylion a ddarparwyd yn gywir, ac os nad ydynt, eich hysbysu o ba wybodaeth bellach sydd ei hangen.

Cynnal ymgynghoriad, a all gynnwys:

- Cyfeirnod banc
- Ymchwiliad gydag asiantaeth gwirio credyd mewn perthynas â'ch busnes. *Bydd yr asiantaeth yn cadw cofnod o'r ymchwiliad hwnnw, ac efallai'n rhannu'r wybodaeth gydag asiantaethau eraill.*
- Gwneud ymholiadau mewn perthynas â chyfarwyddwyr cwmni gydag asiantaeth gwirio credyd.
- Cyfeirio'r ceisiadau i adrannau eraill yn y Cyngor Sir e.e. Cynllunio, Cyfraddau Busnes, Iechyd Amgylcheddol
- Cyfeirio'r cais i'r Panel Grantiau am benderfyniad. *Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar deilyngdod, ac yn unol â nodau ac amcanion y cynllun.*

Cynghori o'r penderfyniad

Byddwch yn cael gwybod o'r penderfyniad mewn llythyr. Os ydych chi'n llwyddiannus, byddwch yn cael eich cynghori o swm y cyllid sy'n cael ei gynnig ac unrhyw amodau penodol sy'n ymwneud â'r dyfarniad. Ni fydd swm y grant sy'n cael ei gynnig, a'i gytuno yn amodol i newid.

Wedi'i atodi i'r llythyr dyddiedig fydd contract '*Telerau ac Amodau*' y mae'n rhaid glynu atynt. Mae'n rhaid i hwn gael ei *lofnodi a'i ddychwelyd o fewn 10 diwrnod* fel derbyniad o'r cynnig am gyllid.

Hawlio

Wrth wneud cais, bydd angen tystiolaeth o wariant. Mae'n rhaid i hyn gynnwys anfonebau cyfrifon gyda derbynneb (*ni ddylai anfonebau fod â dyddiad cyn y llythyr cynnig/contract a ddychwelwyd ac a lofnodwyd*). Bydd angen copiâu o gyfriflen banc cyfatebol, sy'n dangos taliadau yn mynd allan o gyfrifon y cwmni hefyd. Os ydych chi wedi talu gyda cherdyn credyd, neu debyg, bydd angen tystiolaeth eich bod wedi ad-dalu cwmni'r cerdyn yn llawn. *Ni fydd taliadau arian parod yn cael eu derbyn fel rhan o'r hawliad.*

Bydd y Cyngor yn bodloni ei hun bod y gweithgarwch y dyfarnwyd y cyllid ar ei gyfer (gwaith neu archebion a wnaed) wedi cael ei wneud yn unol â'r cynnig a wnaed o fewn y cais, ac unrhyw amodau sydd wedi'i atodi i'r gymeradwyaeth. Gellir gwneud hyn drwy archwiliad neu unrhyw ffordd arall a bennir gan y Cyngor. Pan mae popeth uchod wedi'i gwblhau, bydd y Cyngor yn rhyddhau'r cyllid i'ch Cyfrif Banc Busnes drwy daliad BACS.

Monitro

Yn ystod y cyfnod cydymffurfio o flwyddyn o ariannu, efallai bydd y Cyngor neu ei asiantwyr yn ymweld â'ch eiddo er mwyn cynnal archwiliad monitro o'r busnes a'r asedau sy'n cael eu cefnogi gan gyllid FIF. Ar brosiectau sydd wedi nodi creu swydd fel allbwn, bydd angen tystiolaeth ar y Cyngor o'r ffactorau cyflogaeth, a all gynnwys y canlynol:

- Cofnodion y Gyflogres (Cyn ac Ar Ôl y Dyfarniad)
- Contractau Gwaith
- Slip Cyflog Gwreiddiol gyda Dyddiad
- Gwasanaethau Ar-lein PAYE CThEM
- Tystysgrif P60

Nodwch y gellir gwneud y cofnodion yn anhysbys pan mae enwau unigolion wedi'u cynnwys yn y cofnod.

Ar gyfer pob prosiect arall mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos, un ai tystiolaeth o gynnydd mewn trosiant neu dystiolaeth o sut mae dyfarniad yr FIF wedi effeithio ar y busnes.

ADRAN C - AMODAU FIF

1. Mae'n rhaid i bob busnes fod yn ariannol hyfyw.
2. Mae'r busnes yn cydymffurfio gyda phob gofyniad rheoliadol priodol, polisïau gorfodi a safonau gwasanaeth sy'n berthnasol i'w sector busnes, gan gynnwys cofrestru gyda Chyllid y Wlad at ddibenion treth.
3. Dylech wneud cais am FIF os yw eich prosiect o fewn Sir y Fflint yn unig. Nid ellir ystyried ariannu prosiectau sy'n cynnwys elfennau tu allan i Sir y Fflint.
4. Mae'n rhaid i chi ddarparu tri dyfyniad cystadleuol ar gyfer pob archeb arfaethedig o fwy na £3,000 fesul cyflenwr. *Nodwch fod Cyngor Sir y Fflint yn cadw'r hawl i wneud cais am dri dyfyniad ar gyfer archebion arfaethedig fesul cyflenwr beth bynnag fo'r gost.* Pan mae'r prosiect yn cynnwys gwaith adeiladu neu addasu o unrhyw ddisgrifiad, bydd angen y fath ddyfyniadau gan gontractwyr adeiladu cymwys; Syrfëwr Meintiau; Syrfëwr Siartredig neu Benseiri. Mae'n rhaid i waith trydanol gael ei gynnal gan y Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosodiadau Trydanol, neu gontractwr cymeradwyedig tebyg.
5. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gysylltu ag unrhyw un o'r busnesau sy'n cyflwyno dyfyniadau i gefnogi'r cais, os oes angen eglurhad.
6. Ni fyddwch yn cael cyllid ar gyfer unrhyw ran o'r prosiect sy'n cael ei gynnal gennych chi neu eich busnes (os ydych yn berchen arno'n rhannol neu'n llawn). Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor o unrhyw gysylltiad personol, teuluol, neu fusnes, rhyngoch chi, eich asiant a'ch cyflenwr/contractwr.
7. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi cael caniatâd cynllunio a phob cymeradwyaeth statudol perthnasol / ac yn cydymffurfio **cyn** cyflwyno eich cais. Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth o hyn. Mae'n rhaid i'ch busnes neu waith gael, a chydymffurfio, gyda gofynion hawlen trwyddedau perthnasol eraill hefyd, e.e. Iechyd a Diogelwch, ac ni ddylid defnyddio'r ased(au), neu gael caniatâd i'w defnyddio, yn groes i'r gyfraith neu unrhyw reoliad/is-ddeddfau mewn grym ar y pryd. Mae cymeradwyaeth o'r

cyllid yn berthnasol i wariant yn unig, ac nid yw'n cyfleu cymeradwyaeth o unrhyw fath arall. Ni ddylid dechrau unrhyw waith ar unrhyw adeilad nes bod y cymeradwyaeth gofynnol mewn lle.

8. Nid ellir talu arian ar gyfer gwaith sydd eisoes wedi dechrau neu gyfarpar a brynwyd yn flaenorol.

9. Ni ddylech gael ôl-daliadau gydag unrhyw daliad sy'n ddyledus i'r Cyngor. Bydd unrhyw ddyledion yn gwneud eich cais yn anghymwys.

10. Efallai bydd y Cyngor yn gwirio fod gennych Ddyfarniad Llys Sirol. Efallai bydd Dyfarniad Llys Sirol yn gwneud eich cais yn anghymwys.

11. Mewn achos lle mae prosiect yn cynnwys gwaith ailwampio/addasu i adeilad sydd ar brydles, mae'n rhaid i gyfnod y brydles sy'n weddill ar ddiwrnod derbyn y cais fod yn 5 mlynedd o leiaf. Mae angen tystiolaeth o gymeradwyaeth y landlord hefyd.

12. Mae'r costau canlynol yn anghymwys ar gyfer cefnogaeth cyllid:

- Prynu Tir ac/neu Eiddo
- Prynu Cerbydau ar y Ffordd
- Prynu neu Osod Nodwedion Addurnol, e.e. Murlun, gwelyau blodau, cerfluniau.
- Llety Preswyl
- Atgyweiriadau Cyffredinol, Gwaith Cynnal a Chadw a/neu Gostau Rhedeg
- Prosiectau sy'n cael eu cynnal i gydymffurfio gyda Rheoliadau Statudol yn unig.
- Costau Staff
- TAW Adferadwy
- Archebion Stoc
- Derbyn asedau dan Hurbwrcasu
- Cytundebau Credyd neu Brydles Estynedig

13. Bydd rhaid i unrhyw arwyddion y rhoddir cyllid FIF ar eu cyfer fod yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

15. Mae'n rhaid i asiant awdurdodedig y Cyngor gael caniatâd ar bob adeg rhesymol i fynd i'r eiddo i weld sefyllfa a chyflwr yr ased(au) ac archwilio unrhyw lyfrau, gofnodion neu ddogfennau sy'n berthnasol i'r prosiect.

16. Ni ddylech neilltuo, cymuno, is-brydlesu neu fel arall werthu eich perchnogaeth yn llawn neu'n rhannol o'r ased(au).

17. Bydd angen i chi yswirio ased(au) a gynorthwywyd gan FIF, a pharhau i'w hyswirio, yn erbyn colled neu ddifrod, i'r gwerth disodli llawn. Os oes difrod yn ystod cyfnod contract y grant, ac ym marn yr yswiriwr, nid yw'n economaidd atgyweirio'r fath ddifrod, bydd yr arian yswiriant sy'n daladwy yn cael ei gynnwys, er mwyn gwneud yn iawn am y golled neu ddifrod. Dylid talu am breimymau a dylech ddangos y derbynebau os yw'r Cyngor yn gofyn. Yn ogystal â hynny, mae'n rhaid i chi wneud popeth gofynnol i gynnal yswiriant yn llawn, a pheidio gwneud unrhyw beth i annilysu'r yswiriant.

18. Bydd arian FIF yn cael ei dalu'n amodol ar:

- Gwblhad prosiect sy'n cynnwys gwaith adeiladu ac ardystiad gan Syrfëwr Meintiau; Syrfëwr Siartredig; Pensaer (neu debyg) y Cyngor bod y gwaith yn foddhaol.
- Cyflwyno dogfennau ategol perthnasol i'r Cyngor.

19. Pan mae creu swyddi'n rhan o'r dyfarniad, mae'n rhaid cynnwys tystiolaeth o'r gyflogaeth. At ddibenion FIF, mae 'swydd newydd' yn swydd llawn amser yn y busnes. Mae 'llawn amser' yn golygu isafswm o 30 awr yr wythnos. Efallai bydd dwy swydd rhan amser gyda chyfanswm oriau o 30 awr yr wythnos yn cael eu derbyn fel un swydd llawn amser gyfwerth.
20. Mae'n rhaid i fusnesau fasnachu am 30 awr yr wythnos o leiaf.
21. Mae'n rhaid i chi gytuno i beidio gwneud, hepgor gwneud, neu roi caniatâd i unrhyw beth a fyddai'n achosi i'r ased(au) gael ei fforffedu neu adfeddiannu, neu beryglu hyn.
22. Mae'n dderbyniol prynu offer neu gyfarpar yn ail law, ar yr amod bod y pris yn deg ac nid yw'n destun Cyllid a ariannwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru neu'r UE.
23. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyhoeddi dyfarniad cronfa'r FIF.
24. Dylai cyhoeddiadau yn y wasg neu'r cyfryngau a drefnwyd gennych mewn perthynas â'r prosiect gynnwys cyfeiriad at gymorth ariannol y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae hyn mewn perthynas ag unrhyw gyfleusterau marchnata / gwefan a gefnogir gan FIF.
25. Unwaith mae dyfarniad FIF wedi cael ei gymeradwyo, nid oes modd cynnwys eitemau ychwanegol ar y cais. Os yw'r cyfanswm gwariant yn llai na beth a ragwelwyd yn flaenorol (cost prosiect o fewn y cais) bydd y dyfarniad yn cael ei ostwng pro rata. Gellir hawlio TAW os nad yw'r ymgeisydd wedi cofrestru at ddibenion TAW. Os yw'r cyfanswm gwariant yn fwy na beth a ragwelwyd yn flaenorol (cost prosiect o fewn y cais) ni fydd swm y dyfarniad yn cael ei gynyddu.
26. Mae'n rhaid i'r Cyngor gael ei hysbysu o unrhyw newid i'r prosiect a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer y fath newid.
27. Yn ystod y cyfnod contract o flwyddyn, efallai bydd y Cyngor yn ymweld â'ch eiddo er mwyn cynnal archwiliad monitro o'r busnes a'r asedau sy'n cael eu cefnogi gan gyllid FIF.
28. Mae dyfarniad yr FIF yn ôl disgrisiwn ac mae penderfyniad y Cyngor yn derfynol.